ATODLEN 1

Cyfyngiadau Lefel Rhybudd 1

# RHAN 2

## Cyfyngiadau ar drefnu digwyddiadau

**Gwaharddiad ar drefnu digwyddiadau**

**4.**—(1) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol, ymwneud â threfnu—

(a) digwyddiad a gynhelir yn gyfan gwbl neu'n bennaf o dan do lle y mae mwy na 50 o bobl yn bresennol, neu

(b) digwyddiad a gynhelir yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn yr awyr agored lle y mae mwy na 100 o bobl yn bresennol,

heb gyfrif personau [F1]... sy'n gweithio yn y digwyddiad neu sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol ynddo.

(2) Nid yw is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy'n ymwneud â threfnu digwyddiad a awdurdodwyd gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 5.

(3) At ddibenion is-baragraff (1)—

(a) nid yw person yn ymwneud â threfnu digwyddiad os nad yw'r person ond yn ymwneud â'r digwyddiad drwy fynd iddo;

(b) mae esgus rhesymol yn cynnwys pan fo'r person wedi cymryd pob mesur rhesymol i sicrhau nad oes mwy na 50 neu 100 o bobl yn bresennol, yn ôl y digwydd;

(c) nid yw'r canlynol i'w trin yn ddigwyddiadau—

(i) arddangosiad ffilm;

(ii) perfformiad mewn theatr;

(iii) marchnad;

(iv) gwasanaeth crefyddol;

(v) digwyddiad chwaraeon elît nad yw ond athletwyr elît a phersonau sy'n gweithio yn y digwyddiad neu sy'n darparu gwasanaethau gwirfoddol ynddo yn bresennol ynddo.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn Atod. 1 para. 4(1) wedi eu hepgor (26.4.2021 yn union cyn dechrau'r diwrnod) yn rhinwedd Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) 2021 (O.S. 2021/502), rhlau. 1(2), **2(12)(d)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 1 para. 4 mewn grym ar 20.12.2020 (fel y diwygiwyd gan O.S. 2020/1610, rhl. 2(2)), gweler **rhl. 1(3)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 03/12/2021.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.